



Briff Ymchwil
**Addysg cyfrwng Cymraeg a'r
Gymraeg fel pwnc**

Awdur: **Megan Jones**
Dyddiad: **Awst 2016**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Megan Jones**

Dyddiad: **Awst 2016**

Rhif Papur: **16-048**

Clawr blaen: **Llun o Flickr gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dan drwydded Creative Commons**

Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA**

 : 0300 200 7391

 : Megan.Jones@Cynulliad.Cymru

 : Cynulliad.Cymru/Pigion

 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawffruint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na diffrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawffruint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Mae'n egluro cefndir cyfreithiol addysg cyfrwng Cymraeg, a chategorïau iaith ysgolion. Mae'n cynnwys gwybodaeth berthnasol am y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd gwybodaeth am gludiant i ysgolion. Mae'r papur hefyd yn nodi polisiau Llywodraeth Cymru o ran addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'i pholisiau o ran darpariaeth addysg Cymraeg fel ail iaith. Mae'n cloi drwy edrych ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod y Pumed Cynulliad.

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg cyffredinol o addysg cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r papur wedi'i fwriadu i roi cyngor sy'n berthnasol i achosion unigol.



Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Addysg cyfrwng Cymraeg.....	1
2.1 Y cefndir cyfreithiol	1
2.2 Ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg.....	2
2.3 Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (SACC).....	4
2.4 Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).....	6
2.5 Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.....	8
2.6 Cludiant ysgolion i ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg.....	10
3. Cymraeg fel pwnc	11
3.1 Pynciau craidd a phynciau sylfaen	11
3.2 TGAU Cymraeg.....	11
3.3 Cymraeg ail iaith.....	12
4. Y Pumed Cynulliad	13

1. Cyflwyniad

Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru y dylai pob disgybl astudio Cymraeg o 3 - 16 mlwydd oed, naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith. Mae oddeutu **16% o ddisgyblion yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg** ac yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae **10% arall** yn mynd i ysgolion dwyieithog, ysgolion dwy ffrwd, neu ysgolion Saesneg sydd â darpariaeth Gymraeg sylweddol (gweler rhagor o fanylion ar gategoriâu iaith ysgolion yn bellach ymlaen yn y ddogfen hon). Dengys **Ystadegau Llywodraeth Cymru**, yn 2014, cafodd 22.2% o blant 7 mlwydd oed eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf, a 17.1% o blant 14 mlwydd oed eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf.

2. Addysg cyfrwng Cymraeg

2.1 Y cefndir cyfreithiol

Mae **adran 9 o Ddeddf Addysg 1996** yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r egwyddor gyffredinol bod disgyblion i gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni cyhyd â bod hynny'n gydnaws â darparu addysg a hyfforddiant effeithlon ac sy'n osgoi gwariant cyhoeddus afresymol. Mae **adran 86, 86A a 86B o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998** yn datblygu'r egwyddor hon ac yn cyfeirio at 'addysg yn unol â dymuniadau'r rhieni'. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau sy'n galluogi rhieni plant yn eu hardal, a phobl ifanc yn achos derbyniadau chweched dosbarth, i fynegi eu dewis o ran ysgol ac i roi rhesymau dros y dewis hwnnw. Gall hyn gynnwys cyfrwng y ddarpariaeth. Pan fydd rhiant neu berson ifanc yn mynegi dewis yn ôl y trefniadau hynny, rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu gydymffurfio â'r dewis hwnnw, yn ddarostyngedig i eithriadau a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Mae **Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013** yn gosod gofynion, ar awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn, ynglŷn â chyflawni eu dyletswyddau o ran derbyniadau i ysgolion. Mae'n crynhoi'r eithriadau hyn:

- Pan fyddai cydymffurfio â'r dewis yn effeithio ar ddarparu addysg effeithlon, neu'r defnydd effeithlon o adnoddau (gan gynnwys anfantais a allai godi oherwydd bod angen i gamau perthnasol gael eu cymryd i sicrhau bod cydymffurfio â therfyn maint dosbarth babanod);
- Pan fydd trefniadau ar gyfer derbyn i chweched dosbarth ysgol wedi'i seilio'n llwyr ar ddewis o ran gallu neu ddawn, ac y byddai cydymffurfio â dewis yn anghydnaws â dewis o dan y trefniadau hynny; a
- Phan fydd plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy a bod y gwaharddiad diweddaraf o fewn y ddwy flynedd diwethaf.

Mae'r Cod hefyd yn datgan bod gwaharddiad cyffredinol ar awdurdodau lleol (fel awdurdodau derbyn) i osod meini prawf gor-alw sydd, yn achos ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg.

Mae **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**, yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal drwy eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

2.2 Ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg

O dan **Adran 105 (7) o Ddeddf Addysg 2002** 'ysgol Gymraeg' yw ysgol lle yr

Addysgir mwy na hanner y pynciau canlynol yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg –

(a) Addysg grefyddol, a

(b) Pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg sy'n bynciau sylfaen mewn perthynas â disgyblion yn yr ysgol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau** (yn 2007) sy'n nodi'r categorïau o ysgolion yng Nghymru yn ôl yr iaith a ddefnyddir fel cyfrwng addysgu a busnes arferol yr ysgol. Nid oes sail ddeddfwriaethol i'r diffiniadau hyn, ac maent wedi'u llunio i ddarparu gwybodaeth i rieni, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol am y graddau y mae disgyblion yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Categorïau a disgrifiadau ysgolion cynradd

Yn ôl canllawiau 2007, mae ysgolion cynradd yn perthyn i'r categorïau a ganlyn:

Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae o leiaf 70% o'r addysg yng Nghyfnod Allweddol 2 drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw iaith busnes o ddydd i ddydd yr ysgol a Chymraeg yw iaith cyfathrebu â disgyblion ac ar gyfer gweinyddu'r ysgol.

Ysgolion dwy ffrwd

Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn bodoli ochr yn ochr fwy neu lai. Defnyddir Cymraeg a Saesneg ar gyfer busnes yr ysgol o ddydd i ddydd ac i gyfathrebu â disgyblion.

Ysgolion trawsnewidiol: Cyfrwng Cymraeg gyda defnydd sylweddol o'r Saesneg

Caiff disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddir y ddwy iaith i addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond gyda mwy o bwyslais ar y Gymraeg, fel y caiff ei defnyddio i addysgu dros 50%, a hyd at 70% o'r cwricwlwm. Cymraeg yw iaith busnes yr ysgol o ddydd i ddydd a rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg yn yr ysgol.

Ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf, gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg

Addysgir yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn y ddwy iaith, gyda mwy o bwyslais ar y Saesneg. Defnyddir y Gymraeg i addysgu rhwng 20-50% o'r cwricwlwm yn gyffredinol. Penderfynir ar iaith yr ysgol o ddydd i ddydd gan gyd-destun ieithyddol yr ysgol – defnyddir y ddwy iaith fel ieithoedd cyfathrebu â disgyblion ac ar gyfer gweinyddu'r ysgol.

Ysgolion cyfrwng Saesneg

Addysgir yn y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Saesneg. Saesneg yw'r prif gyfrwng ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 hefyd, ond dysgir y Gymraeg fel ail iaith, ac efallai y caiff rhai agweddau ar rai pynciau eu haddysgu yn Gymraeg. Saesneg yw iaith busnes yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg i gyfathrebu â disgyblion, gyda'r nod o wella eu gallu i ddefnyddio Cymraeg bob dydd.

Categoriâu a disgrifiadau ysgolion uwchradd

Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Addysgir pob pwnc, heblaw Saesneg, drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ac fe'i defnyddir fel iaith cyfathrebu â disgyblion ac ar gyfer gweinyddu'r ysgol.

Ysgolion dwyieithog

Mae pedair is-adran i'r categori hwn yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, ac a oes yr un ddarpariaeth yn Saesneg ai peidio.

- Math A: addysgir o leiaf 80% o'r pynciau, ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg, drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Caiff un neu ddau o bynciau eu haddysgu i rai disgyblion yn Saesneg neu yn y ddwy iaith.
- Math B: addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg, ond fe'u haddysgir hefyd drwy gyfrwng y Saesneg.
- Math C: addysgir 50-79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg, ond fe'u haddysgir hefyd drwy gyfrwng y Saesneg.
- Math Ch: addysgir pob pwnc, ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg, i bob disgybl gan ddefnyddio'r ddwy iaith.

Pennir iaith o ddydd i ddydd yr ysgol gan ei chyd-destun ieithyddol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu â disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol, a rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg.

Ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf, gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg

Defnyddir y ddwy iaith i addysgu, gyda 20-49% o'r pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd fel arfer. Defnyddir y ddwy iaith ar gyfer cyfathrebu â'r disgyblion a gweinyddu'r ysgol.

Ysgolion cyfrwng Saesneg

Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg ac addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at Gyfnod Allweddol 4. Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg fel iaith cyfathrebu â'r disgyblion, gyda'r nod o wella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Ystadegau ysgolion yn ôl categori iaith

Yn 2014/15, roedd 391 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghymru, ochr yn ochr â 39 o ysgolion dwy ffrwd, 33 o ysgolion Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg, a 862 o ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 23 o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, 27 o ysgolion dwyieithog, 9 o ysgolion Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg, a 148 o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a'r ysgolion dwyieithog mewn unrhyw etholaeth benodol ar [wefan StatsCymru](#).

2.3 Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (SACC)

Lansiodd Llywodraeth Cymru ei **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** ym mis Ebrill 2010. Nododd gytundeb polisi newydd gydag awdurdodau lleol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ddiweddarach gwnaed hyn yn ddyletswydd yn **Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**.

Mae'r strategaeth yn nodi chwe nod strategol a nifer o amcanion o fewn iddynt:

- Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a'r cyfnodau statudol ar sail y galw gan rieni gwybodus;
- Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau addysg a hyfforddiant ôl-14, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus;
- Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg hyd yr eithaf, ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf;
- Sicrhau bod gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg sy'n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, gyda sgiliau iaith Gymraeg o safon uchel a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu;
- Gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg; a
- Chyfrannu at sicrhau ac atgyfnerthu sgiliau Cymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned.

Adroddiad blynyddol a thargedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (SACC)

Mae'r SACC yn cynnwys targedau cenedlaethol, ac mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i roi'r newyddion diweddaraf am gynnydd. Nod y targedau yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol (ceir rhagor o wybodaeth isod) yw cefnogi'r gwaith o gyflawni targedau cyffredinol Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.


Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn 2011 yn cynnwys gofyniad bod awdurdodau lleol yn adrodd yn flynyddol ar y targedau SACC canlynol:

- Bod rhagor o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o'r garfan Blwyddyn 2;
- Bod rhagor o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- Bod rhagor o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Bod rhagor o ddysgwyr rhwng 16 - 19 mlwydd oed yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- Bod rhagor o fyfyrwr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg.

Mae'r ffeithlun yn dangos y targedau ar gyfer plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ochr yn ochr â data ar y newid canran fesul awdurdod lleol rhwng 2010 a 2014.



Canlyniad 1

Mwy o ddysgwyr saith oed yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



Dangosydd Canlyniad 1

Canran y garfan Blwyddyn 2 a aseswyd mewn Cymraeg iaith gyntaf



Newid yn y ganran yn erbyn Canlyniad 1 yn ôl Awdurdod Lleol 2010-2014

Cynnydd mewn canran o gymharu â chanlyniad 1

Gostyngiad canrannol o'i gymharu â Deilliant 1

Bydd angen i awdurdodau lleol gyda gostyngiad canran yn erbyn canlyniad 1 ers lansio'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ddangos yn eu WESP diwygiedig ar gyfer 2015 sut y byddant yn mynd i'r afael â'r tueddadau am i lawr.

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Gorffennaf 2015

Gwerthuso a'r camau nesaf

Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Y Camau Nesaf**, a oedd yn amlinellu ei thri phrif amcan ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg iaith Gymraeg dros y 12 mis canlynol:

- Yr angen i ymgorffori prosesau ar gyfer cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg: bod cryfhau prosesau cynllunio strategol ar gyfer pob cyfnod o addysg a hyfforddiant yn parhau'n flaenoriaeth;
- Yr angen am well prosesau cynllunio gweithlu a chymorth i ymarferwyr: mae sicrhau bod gweithlu digonol ar gael ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn hanfodol; ac

- Mae angen sicrhau bod pobl ifanc yn cael yr hyder i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd: ni all addysg a hyfforddiant yn unig warantu bod siaradwyr yn rhugl yn y Gymraeg, nac yn dewis defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Gwnaeth y **Gwerthusiad hwn o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** (Mawrth 2016) 21 o argymhellion, gan gynnwys:

- Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad polisi sy'n cadarnhau ac yn atgyfnerthu ei gweledigaeth ar gyfer twf parhaus addysg cyfrwng Cymraeg. Dylai'r datganiad hwn bwysleisio'r ddyletswydd ar bob partner i gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg;
- Dylai arweinwyr uwch o fewn Llywodraeth Cymru sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hystyried fel elfen graidd drwy gydol y broses o gynllunio a gweithredu polisiau addysg. Dylai hyn gynnwys rhoi ystyriaeth ofalus i gyfraniad tebygol, ac effaith, polisiau ar y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w cyflawni yn y strategaeth;
- Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad monitro blynyddol ar gynnydd ac effeithiolrwydd y dulliau o weithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Byddai'r adroddiad hwn yn gyfle i nodi pa awdurdodau sydd wedi llwyddo i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac i herio'r awdurdodau hynny sydd wedi tanberfformio yn ôl eu targedau lleol; a
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad pellach o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylai'r adolygiad edrych ar enghreifftiau o arfer da ar lefel leol a rhanbarthol. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried gallu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn y maes hwn.

2.4 Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)

Roedd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac i nodi eu targedau wrth Lywodraeth Cymru. Gosododd **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg ar sail statudol. Ar ôl gweithredu'r Ddeddf, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu eu cynlluniau strategol Cymraeg mewn Addysg statudol cyntaf ar gyfer y cyfnod 2014-2017. Roedd y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori ynghylch Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, i'w lunio a'i gyhoeddi ar gyfer ei gymeradwyo, a'i fonitro gan Weinidogion Cymru. Roedd yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau gan Weinidogion Cymru ynghylch cynlluniau strategol, ac yn dilyn hynny daeth y **Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013** i rym ar 31 Rhagfyr 2013. Maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag:

- Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg
- Hyd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- Ffurf a chynnwys y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- Cyflwyno'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i Weinidogion Cymru;
- Amseriad a dull cyhoeddi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- Ymgynghori ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg; ac
- Adolygiad o'r Cynllun

Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gynlluniau tair blynedd a gaiff eu hadolygu'n flynyddol, a rhaid iddynt nodi:

- Cynigion yr awdurdod lleol i wella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal, ynghyd â gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg, a safonau addysg a dysgu Cymraeg yn ei ardal;
- Targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;
- Adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

Mae asesiad yr awdurdod lleol o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal, a pha gamau y bydd yn eu cymryd i ateb y galw hwnnw yn ganolog i'r cynlluniau hyn.

Ymchwiliad Pwyllgor y Cynulliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Yn 2015 cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol **Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAu)**. Trafododd y Pwyllgor:

- A yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru;
- A yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol ar lefel awdurdodau lleol (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg) neu a oes ganddynt y posibilrwydd o wneud hynny;
- Y trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn);
- A yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn dangos rhyngweithio effeithiol rhwng Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill (er enghraifft, y polisi trafndiaeth ysgolion; Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; Iaith fyw: iaith byw – y Datganiad Polisi Symud Ymlaen; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio); ac
- A yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau y ceir canlyniadau teg i bob disgybl (er enghraifft disgyblion cynradd / uwchradd; plant o gartrefi incwm isel).

Cododd adroddiad y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u heffeithlonrwydd wrth hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Dywedodd:

Mae gan Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg y potensial i sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg ac sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd llawer o randdeiliaid yn cydnabod y potensial hwn ac yn croesawu'r Cynlluniau pan gawsant eu cyflwyno. Fodd bynnag, mae llawer o'r rhanddeiliaid hynny wedi'u siomi gan ddiffyg effaith y Cynlluniau wrth iddynt gael eu gweithredu. Iddynt hwy, mae hanes y Cynlluniau hyd yn hyn wedi bod yn un o golli cyfle. Yn fwy pryderus, mae pryderon cynyddol nad ydynt yn addas i'r diben.

Cydnabu Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd na fyddai pob targed cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cael ei gyrraedd, a dywedodd wrth y Pwyllgor:

We have already acknowledged in the last two Annual Reports on the Welsh-medium Education Strategy that we would be unlikely to meet all the 2015 targets. Against that background, it seems unlikely that those targets which will not be met in 2015 will also be met in 2020 without improved planning and action at local authority level.

Gwnaeth y Pwyllgor 17 o argymhellion, gan gynnwys:

- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a bod yn fwy cadarn wrth gymeradwyo'r Cynlluniau, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru;
- Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gyflawni ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg;
- Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach gydag awdurdodau lleol ynghylch ei disgwyliadau o ran hyrwyddo twf addysg cyfrwng Cymraeg fel bod pob awdurdod lleol yn ymrwmo i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru; a
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth o ran hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol ac yn lleol. Dylai'r strategaeth gynnwys dulliau y gall awdurdodau lleol ac ysgolion eu defnyddio a'u haddasu.

Yn ei hymateb i argymhellion y Pwyllgor, dywedodd Llywodraeth Cymru:

Mae awdurdodau lleol wedi cael tair blynedd i ddatblygu a mireinio eu CSGA'u ond mae'r graddau y bu'n rhaid cyflwyno addasiadau cyn gallu rhoi cymeradwyaeth Gweinidogol yn awgrymu bod peth ffordd i fynd cyn iddynt fod wedi gwreiddio'n ddigonol o fewn prosesau awdurdodau lleol er mwyn cyfrannu'n effeithiol tuag at dargedau a chanlyniadau'r Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried dyfodiad y CSGA'u fel elfen bwysig o greu'r system sy'n angenrheidiol i wella'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â safonau addysg cyfrwng Cymraeg. Tra bod y mecanwaith hwn wedi ei dderbyn gan awdurdodau lleol, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y Cynlluniau, yn enwedig gan fod y gwaith o gymeradwyo'r Cynlluniau yn gychwynnol ac yn dilyn hynny y Cynlluniau diwygiedig, wedi cynnwys addasiadau sylweddol.

Derbyniodd **Llywodraeth Cymru** chwe argymhelliad, a derbyniodd chwech arall 'mewn egwyddor', a gwrthododd bump o argymhellion. I gael rhagor o wybodaeth gweler blog y Gwasanaeth Ymchwil ar **Pa mor effeithiol yw'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg?**

2.5 Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion ac eraill yn y sector addysg gyflawni eu dyletswyddau statudol i adnabod, asesu ac i wneud darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig plant o ran **Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru**.

Mae'r cod ymarfer yn cynnwys canllawiau ar sut y dylai awdurdodau lleol wneud darpariaeth ar gyfer AAA drwy gyfrwng y Gymraeg:

[...] i'r graddau mae'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol [dylai gwasanaethau fod yn] cael eu darparu yn Gymraeg a/neu'r Saesneg yn ôl anghenion a dymuniadau'r disgybl a'i rieni. Dylai gwasanaethau gael eu trefnu er mwyn hwyluso hyn a dylai fod yn gyfartal o ran ansawdd a chwmpas i siaradwyr Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Dylid darparu cydraddoldeb o ran darpariaeth iaith ym mhob gwasanaeth a dylai cyrff sicrhau hefyd eu bod yn cyfathrebu â rhieni yn yr iaith o'u dewis [...] (paragraff 1.7)

Un o amcanion strategol Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yw cynllunio'n well o ran addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r term anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn aml yn cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol â'r term anghenion addysgol arbennig (AAA). Bwriad Llywodraeth Cymru yw deddfu i ddisodli AAA ag ADY yn ffurfiol. I gael rhagor o wybodaeth gweler blog y Gwasanaeth Ymchwil ar **Ddiwygio'r System Anghenion Addysgol Arbennig (Mehefin 2016)**.

Ym mis Rhagfyr 2015 roedd adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dilyn ei **Ymchwiliad i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg** yn nodi:

Ymddengys bod bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac sydd am gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir amrywiaeth ranbarthol hefyd yn lefel y ddarpariaeth. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys a allai fod yn briodol i gyflwyno trefn ranbarthol o ran darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.

Roedd yr adroddiad yn argymhell y dylai'r Llywodraeth amlinellu sut y bydd yn mynd i'r afael â darparu addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a ph'un a fyddai'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd i ddod yn gyfrwng priodol i wneud hynny.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru **yr argymhelliad hwn**.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd cefnogi'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw sicrhau bod darpariaeth addysgol ddigonol i'r holl ddysgwyr gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg[...]

Drwy ein gwaith gydag Ysgolion Arloesi'r Fargen Newydd, rydym ni'n sicrhau y bydd ein gweithlu'n datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gynnig gwell cefnogaeth i bob dysgwr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal rydym ni'n cydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu system cynllunio gweithlu cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau cymorth anghenion dysgu ychwanegol arbenigol er mwyn gwella gallu'r gwasanaethau i gefnogi dysgwyr ac ysgolion ar draws Cymru. Bydd system cynllunio'r gweithlu yn ystyried gallu iaith Gymraeg y gwasanaethau cymorth arbenigol.

Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddodd y Llywodraeth y **Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)** ac yna cyhoeddodd ddrafft cychwynnol gweithredol o **God Anghenion Dysgu Ychwanegol** (Saesneg yn unig) arfaethedig ym mis Medi 2015. Mae'r Cod drafft yn nodi:

[Y] Cefnogir yr iaith Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011... Bydd yn rhaid i gyrff perthnasol sicrhau bod eu gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â'r safonau iaith perthnasol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol amlinellu'r agweddau ar y Gymraeg o ran y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu Cynlluniau Strategol Gymraeg mewn Addysg, sy'n cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo.

Ar ôl cyhoeddi'r Bil Drafft a'r Cod Drafft gwnaeth Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad **waith craffu cyn deddfu** ar y newidiadau arfaethedig i'r system ADY. Nododd **Ilythyr y Pwyllgor at Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd**:

Codwyd nifer o bryderon mewn cyflwyniadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor ynghylch triniaeth gyffredinol y Bil o'r iaith Gymraeg. Testun pryder arbennig yw ei bod yn ymddangos bod darpariaeth annigonol ar gyfer gwella gwasanaethau ADY cyfrwng Cymraeg a bod y Bil drafft yn methu â rhoi ystyriaeth i natur ddwyieithog Cymru.

Mae'r asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg, sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol drafft, yn rhoi grym i'r diogelwch a ddarperir gan y safonau iaith Gymraeg statudol. Fodd bynnag, nid yw'r safonau yn berthnasol i ysgolion, ac mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r asesiad effaith fod yn gamarweiniol yn hyn o beth.

Mae'r asesiad effaith hefyd yn cyfeirio at nifer o bwyntiau 'y mae'r Cod drafft yn debygol o'u cynnwys' ond yn gyffredinol nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y Cod drafft gweithio sydd wedi cael ei gyhoeddi. Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod y diffyg cyfeiriad at gyfathrebu â theuluoedd yn eu dewis iaith ym mhennod 4 y Cod drafft, yn peri syndod ac yn siomedig.

Bydd yn bwysig bod fersiynau o'r Bil a'r Cod yn y dyfodol yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, gan sicrhau bod y system ADY newydd yn talu sylw llawn i natur ddwyieithog Cymru ac yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc ag ADY sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywedodd y Gweinidog ar y pryd wrth ymateb, bod Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sylwadau a wnaed yn ystod y gwaith craffu cyn y broses ddeddfu ac y byddai'n 'rhoi sylw dyledus' i'r sylwadau hynny wrth i'r Bil drafft a'r Cod gael eu datblygu ymhellach.

2.6 Cludiant ysgolion i ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg

Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol os bydd disgybl yn byw bellter penodol o'r ysgol addas agosaf a nodir yn y **Bil Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**. Ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd y pellter hwn yw dwy filltir ac ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd, mae'n dair milltir.

Mae'r **Canllawiau Gweithredol** (2014) sy'n mynd gyda'r Mesur yn datgan nad yw dewis iaith y plentyn na'r rhieni yn cael unrhyw effaith o ran a yw ysgol yn addas ai peidio. Fodd bynnag, mae **Adran 10 o'r Mesur** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i 'hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg'.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn darparu cludiant i ddisgyblion nad yw dyletswydd statudol yn ddyledus iddynt o dan y Mesur. Gall hyn gynnwys darparu cludiant i ddarpariaeth addysg ôl-16, ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd. Gwneir darpariaeth o'r fath o dan **Adran 6 o'r Mesur** sy'n

rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol wneud unrhyw drefniant y credent a all fod o fudd i hwyluso taith dysgwyr i'r lleoliad lle cânt eu dysgu neu eu hyfforddi ac oddi yno. Os bydd awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau o dan Adran 6 o'r Mesur, yn unol ag **Adran 9**, mae'n rhaid iddo sicrhau bod y polisi'n cael ei gymhwyso i bob dysgwr mewn amgylchiadau tebyg, sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol.

3. Cymraeg fel pwnc

Ar ôl cyflwyno **Deddf Diwygio Addysg 1988**, daeth y Gymraeg yn raddol yn bwnc gorfodol ar gyfer disgyblion 5-14 mlwydd oed (Cyfnod Allweddol 1, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3) ers 1990. O fis Medi 1999 ymlaen, daeth y Gymraeg hefyd yn bwnc gorfodol i'w astudio i bobl ifanc 14-16 mlwydd oed (Cyfnod Allweddol 4). Gyda dyfodiad y **Cyfnod Sylfaen** yn 2011, addysgir y Gymraeg neu Ddatblygu'r Gymraeg hefyd i bob plentyn 3-7 mlwydd oed.

3.1 Pynciau craidd a phynciau sylfaen

Mae Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yn cynnwys pynciau craidd a phynciau sylfaen, a restrir yn **Neddf Addysg 2002**.

- Y **pynciau craidd** ar gyfer **Cyfnodau Allweddol 1-3** yw Mathemateg; Gwyddoniaeth; Saesneg; a Chymraeg iaith gyntaf (yng nghyd-destun ysgolion cyfrwng Cymraeg, fel y nodir yn *Neddf Addysg 2002*). Y **pynciau sylfaen** yw Technoleg; Addysg gorfforol; Hanes; Daearyddiaeth; Celf; Cerddoriaeth; Cymraeg ail iaith (os nad yw'r ysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel y nodir yn *Neddf Addysg 2002*); ac ar gyfer Cyfnod Allweddol 3, iaith dramor fodern.
- Y **pynciau craidd** ar gyfer **Cyfnod Allweddol 4** yw Cymraeg iaith gyntaf; Mathemateg; Saesneg; a Gwyddoniaeth. Y **pynciau sylfaen** yw Addysg gorfforol; a Chymraeg ail iaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi rhaglen astudio ar gyfer pob pwnc, sy'n cynnwys y cyfleoedd y dylid eu rhoi i ddysgwyr ym mhob Cyfnod Allweddol, ynghyd â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae disgwyl i ddisgyblion eu cael ar ddiwedd Cyfnod Allweddol. Yr ysgolion sy'n penderfynu sut y maent yn bodloni gofynion y cwricwlwm. Nid oes oriau penodedig ar gyfer unrhyw bynciau penodol. Felly, fel sy'n digwydd gyda phob pwnc arall yn y cwricwlwm, mae faint o amser a gaiff ei ddynodi ar gyfer astudio Cymraeg yn fater a benderfynir yn lleol gan ysgolion.

3.2 TGAU Cymraeg

Er bod astudio Cymraeg iaith gyntaf neu Gymraeg ail iaith fel pwnc yn orfodol, yr ysgolion sy'n gwneud penderfyniad ar y math o gymhwyster sydd ar gael, a gwneir y penderfyniad ar lefel leol. Ar hyn o bryd yng Nghyfnod Allweddol 4, mae ysgolion yn cofrestru disgyblion naill ai ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf, TGAU Cymraeg ail iaith (cwrs llawn), TGAU Cymraeg ail iaith (cwrs byr), neu ar gyfer dim cymhwyster o gwbl. Mae datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, **Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 (2013)** yn datgan, er bod y Gymraeg yn bwnc gorfodol yn y cwricwlwm cenedlaethol, nid yw'n orfodol i gofrestru disgyblion i sefyll arholiad TGAU nac unrhyw gymhwyster arall (gweler yr adran ar y Gymraeg fel ail iaith).

Mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Chydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC) a rhanddeiliaid eraill, wrthi'n datblygu model diwygiedig ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith (cwrs llawn) sydd i'w gyflwyno ym mis Medi 2017. Caiff y cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith ei ddileu unwaith y cyflwynir y cwrs llawn diwygiedig, a bydd y cyfle olaf i asesu ar gyfer y cwrs byr yn yr haf 2018.

Ym mis Gorffennaf 2016, **cyhoeddodd CBAC**, o ganlyniad i newidiadau i fanylebau arholiadau TGAU, UG ac arholiadau Safon Uwch y bydd yn cael grant o hyd at £1 miliwn dros ddwy flynedd (2016-18) gan Lywodraeth Cymru i reoli'r ddarpariaeth o adnoddau cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r cymwysterau hyn. Nod y grant yw sicrhau bod fersiynau Cymraeg o adnoddau i gefnogi cymwysterau CBAC ar gael i ddysgwyr yng Nghymru sydd eisiau astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.3 Cymraeg Ail Iaith

Grŵp Adolygu Cymraeg Ail Iaith

Ym mis Ebrill 2012 cytunodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Leighton Andrews, ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r ffaith bod '**safonau a chyrhaeddiad o ran addysg Gymraeg fel ail iaith yn is nag mewn pynciau eraill**'. Roedd amcan penodol o fewn y cynllun gweithredu i adolygu asesiadau a chymwysterau Cymraeg ail iaith.

Ym mis Gorffennaf 2012 sefydlwyd Grŵp Adolygu Cymraeg Ail Iaith gan y Gweinidog, i adolygu darpariaeth Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Gofynnwyd i'r grŵp ystyried hefyd:

- Sut i ddarparu profiad dysgu cadarnhaol ar gyfer dysgwyr Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg;
- Sut i godi statws Cymraeg ail iaith fel pwnc a dileu rhwystrau ar lefel leol, lefel ranbarthol ac ar lefel genedlaethol;
- A yw cymwysterau (sydd ar gael ar hyn o bryd a/neu ffurfiau achredu posibl eraill) yn sbardun neu'n rhwystr wrth ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg trosglwyddadwy;
- Beth yw'r ffordd orau i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr fel eu bod yn gallu trosglwyddo eu sgiliau a defnyddio'r iaith yn y gweithle, yn y gymuned a chyda'r teulu; a
- Sut i fynd i'r afael â materion cynllunio gweithlu i sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd yr adnoddau a'r capasiti i gyflwyno darpariaeth Cymraeg ail iaith o ansawdd.

Un iaith i bawb

Roedd adroddiad y Grŵp, **Un iaith i bawb – Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 (2013)**, yn tynnu sylw at nifer o faterion y teimlai'r Grŵp a oedd angen sylw i wella safonau o ran Cymraeg ail iaith, gan gynnwys:

- Nid yw disgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da wrth drosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3;
- Ni chaiff digon o amser ei neilltuo i addysgu'r pwnc, ac mewn rhai ysgolion, mae'r amser cyn lleied ag awr bob pythefnos;
- Mae diffyg hyder a gallu i addysgu Cymraeg ail iaith yn amlwg ymhlith llawer o athrawon mewn ysgolion cynradd;
- Mae gormod o ddisgyblion sy'n dilyn cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith yn cofrestru ar gyfer yr haen sylfaenol, er eu bod yn gallu ennill graddau A*- B, nad oes modd eu cyflawni yn yr haen sylfaenol;
- Yn y rhan fwyaf o ysgolion nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion glywed yr iaith ac ymarfer ei defnyddio y tu allan i wersi Cymraeg ffurfiol; ac

- Mewn gormod o ysgolion uwchradd, caiff y pwnc ei addysgu gan athrawon anarbenigol nad oes ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o fethodoleg addysgu ail iaith.

Roedd yr adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion, gan gynnwys, y dylai Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau bod Cymraeg ail iaith yn parhau i fod yn bwnc statudol o fewn y cwricwlwm cenedlaethol ac yn parhau i fod yn bwnc gorfodol i bob disgybl yng Nghymru tan ddiwedd Cyfnod Allweddol 4;
- Rhoi statws cyfartal i Gymraeg ail iaith o fewn y cwricwlwm cenedlaethol, a sicrhau bod y pwnc yn cael yr un amlygrwydd â phynciau craidd o ran mesurau perfformiad;
- Adolygu'r rhaglen o astudio Cymraeg, dros gyfnod o dair i bum mlynedd, a defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol ar gyfer Cymru fel sail ar gyfer cwricwlwm diwygiedig, gan gynnwys sefydlu un continwwm dysgu ar gyfer y Gymraeg, gyda disgwyliadau clir ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, dwyieithog a lleoliadau cyfrwng Cymraeg;
- Datblygu, o fewn amserlen tair i bum mlynedd, gymhwyster TGAU llawn newydd (neu gymhwyster cyfatebol) wedi'i seilio ar y Cwricwlwm diwygiedig a dileu'r cwrs byr TGAU; ac
- Mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol, datblygu strategaeth hyfforddiant cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddarparu hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus i ymarferwyr.

Nododd **ymateb Llywodraeth Cymru** i'r adroddiad y byddai'n gofyn i'r Athro Donaldson ystyried yr argymhellion hynny sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm fel rhan o'i adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Derbyniodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, holl argymhellion eraill yr adroddiad, neu derbyniodd hwy mewn egwyddor.

Darparodd y Gweinidog ar y pryd y **wybodaeth ddiweddaraf** am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion hyn ym mis Hydref 2015, yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Athro Donaldson ar ei **Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru Adroddiad – dyfodol llwyddiannus**.

Dywedodd y Gweinidog fod y ddogfen *Dyfodol llwyddiannus* yn gwneud 10 o argymhellion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y cwricwlwm, a bod y rhain yn ymateb yn uniongyrchol i'r argymhellion allweddol a wnaed gan y Grŵp Adolygu Cymraeg fel Ail iaith. Derbyniodd y Gweinidog yr holl argymhellion hyn, gan gynnwys y bydd y Gymraeg yn parhau'n orfodol mewn ysgolion hyd at 16 mlwydd oed.

Yn ôl y Gweinidog ar y pryd, dylai'r cwricwlwm newydd ganolbwyntio o'r newydd ar ddysgu Cymraeg fel ffordd o gyfathrebu yn bennaf, yn enwedig cyfathrebu a deall ar lafar. Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella'r gwerth a roddir ar y Gymraeg drwy gryfhau'r ffocws ar ei gwerth masnachol ar gyfer y farchnad swyddi, ar y manteision gwybyddol mewn cysylltiad â dwyieithrwydd a awgrymwyd, a'i phwysigrwydd ar gyfer galluogi plant a phobl ifanc i gael dealltwriaeth dda o fywyd diwylliannol Cymru yn y gorffennol ac yn y presennol.

4. Y Pumed Cynulliad

Yn dilyn etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016, a dyrannu rolau o fewn Cabinet Llywodraeth Cymru, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros y Gymraeg oddi ar Carwyn Jones, y Prif Weinidog, i Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Yn ei ddatganiad ym mis Gorffennaf 2016 a oedd yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer y Gymraeg dros y flwyddyn nesaf, dywedodd Alun Davies:

Rwyf hefyd yn awyddus i ailedrych ar y broses o gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Eisoes bu fy swyddogion yn trafod gydag awdurdodau lleol er mwyn mireinio'r canllawiau ar baratoi cynlluniau strategol addysg Gymraeg ar gyfer y tair blynedd nesaf. Y nod yn hyn o beth yw sicrhau y byddai cynlluniau yn arwain at gamau pendant ac amserol mewn ffordd sydd yn arwain at dwf mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Rwyf hefyd wedi ymrwymo i weithredu'r blaenoriaethau ar gyfer addysg Gymraeg a gyhoeddwyd mewn datganiad ym mis Mawrth eleni. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar gynllunio cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru a fydd yn cynnwys un continuum dysgu ar gyfer y Gymraeg.

Yn ogystal, dywedodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, **wrth y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** (Tudalen 25) ym mis Gorffennaf 2016:

One of the challenges in providing really good, high-quality, Welsh-medium education is that continuum, so that parents, when they start that journey – and parents don't plan journeys in key stages – when they make that decision about where they're going to send their child to a nursery provision, they're doing so in the context of being able to see that journey. One of the reasons why, potentially, people, especially parents who are not Welsh-speaking themselves, sometimes maybe don't start on that journey is because of a lack of continuum [...]

Yn fwy cyffredinol, yn Awst 2016, cyhoeddod Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar **Strategaeth Iaith Gymraeg newydd** sydd yn rhoi sylw i chwe maes datblygu strategol, gan gynnwys addysg.